Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau

# Rhoddion a benthyciadau i Aelodau Senedd y DU

Mae'r ddogfen hon yun esbonio sut mae rhoddion a benthyciadau i Aelodau Senedd y DU yn cael eu rheoleiddio.

Cynnwys:


Trosolwg o roddion a benthyciadau

Rhoddwyr a benthycwyr a ganiateir

Y wybodaeth sydd rhaid i chi ei chofnodi

Adrodd am roddion a benthyciadau

# Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

# Termau ac ymadroddion a ddefnyddir gennym

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** pan fyddwn yn cyfeirio at ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau yr ydym yn eu hystyried yn lleiafswm o arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych yn gwneud hynny, byddwch fel arfer byddwch yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'r Comisiynydd Seneddol dros Safonau yn gyfrifol an weinyddu rhai o'r rheolau yn y ddogfen hon. Ry'n ni wedi ceisio bod yn eglur o ran pwy sy'n gyfrifol am ba agwedd o'r rheolau.

# Ein dull o orfodi

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddarparu'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio â dealltwriaeth glir o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllawiau a chyngor. Os ydych yn ansicr ynglŷn â sut mae unrhyw un o'r rheolau yn berthnasol i chi, ffoniwch ni am gyngor.  Rydym yn hapus i helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio'n pwerau ymchwilio a chosbau, lle bo gofyn a'i bod hi'n gymesur i wneud er mwyn bodloni ein hamcanion gorfodi. Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol gallech chi fod yn destun i gosbau sifil neu droseddol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddull y Comisiwn o orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/gorfodi

# Rhoddion a benthyciadau i Aelodau Senedd y DU

## Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Sut mae Aelodau Senedd y DU (ASau) yn gorfod adrodd rhoddion a benthyciadau y maent yn eu derbyn mewn cysylltiad â'u gweithgarwch gwleidyddol fel AS, ac fel aelod o blaid gwleidyddol.

Mae'r canllawiau hyn i Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

## Mae'r ddogfen yn trafod:

- trosolwg o'ch rhwymedigaethau o ran rhoddion a benthyciadau fel AS ac Aelod o blaid
- gweithgareddau gwleidyddol
- trosolwg o roddion a benthyciadau
- gan bwy y gallwch dderbyn rhoddion a benthyciadau
- cofnodi ac adrodd am roddion a benthyciadau

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cod Ymddygiad i Aelodau Seneddol a'r Canllaw i'r Rheolau o ran Ymddygiad Aelodau

## Ffurflenni

- RD1B: Adroddiad am rodd na dderbyniwyd gan dderbynnydd a reoleiddir ym Mhrydain Fawr
- RD1G: Adroddiad am rodd na dderbyniwyd gan dderbynnydd a reoleiddir yng Ngogledd Iwerddon
- RD1D: Adroddiad am fenthyciad na chaniateir gan dderbynnydd a reoleiddir ym Mhrydain Fawr
- RD1D NI: Adroddiad am fenthyciad na chaniateir gan dderbynnydd a reoleiddir yng Ngogledd Iwerddon

2

# Crynodeb

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) a Chod Ymddygiad Tŷ'r Cyffredin, rhaid i Aelodau Seneddol ddilyn rheolau am roddion a benthyciadau a dderbyniant mewn cysylltiad â'r swydd maent yn ei dal.

Mae'n rhaid iddynt hefyd ddilyn y rheolau ar roddion a benthyciadau y maent yn eu derbyn fel aelodau o blaid wleidyddol.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r rheolau a beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn cydymffurfio â hwy.

# Cyflwyniad

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) rhaid i aelodau pleidiau gwleidyddol a deiliaid rhai swyddi etholedig penodol, gan gynnwys ASau, ddilyn rheolau sy'n ymwneud â rhoddion a benthyciadau a dderbyniant mewn cysylltiad â'u gweithgareddau gwleidyddol. Rydym yn galw'r unigolion hyn 'dderbynwyr a reoleiddir'.

Mae’n rhaid i chi gofrestru manylion rhoddio a benthycidau yr ydych yn eu derbyn mewn cysylltiad âh gweithgarwch gwleidyddol gyda Swyddfa’r Comisiynydd Seneddol dros Safonau (y Comisiynydd), p’un a eu bod wedi eu derbyn yn eich swydd fel AS neu fel aelod o blaid wleidyddol.

Yn y canllawiau hyn ry’n ni’n cyfeirio at gofrestru rhoddion a benthyciadau fel ‘adrodd i’r Comisiynydd’/ Mae’r rheolau hyn yn wahanol i’r rheolau ar roddion y galwch eu derbyn tuag at eich treuliau etholiadol fel ymgeisydd a nodir yn eich cofnod gwariant, efallai bydd hefyd angen i chi adrodd y rhain i’r Comisiynydd.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o roddion a benthyciadau i Aelodau Seneddol, yn esbonio sut i sicrhau bod y rhoddion a benthyciadau a dderbyniwch yn rhai a ganiateir, ac yn rhoi gwybodaeth am y manylion yn ymwneud â rhoddion a benthyciadau sydd rhaid i chi eu cofnodi ac adrodd amdanynt. Dylid eu darllen ar y cyd â Chod Ymddygiad y Tŷ a chanllawiau i'r rheolau.

Gall ASau sy'n cynrychioli etholaethau yng Ngogledd Iwerddon hefyd dderbyn rhoddion a benthyciadau o rai ffynonellau Gwyddelig. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rheolau hyn.

4

# Eich rhwymedigaethau fel AS

Fel AS, rhaid i chi ddilyn y rheolau perthnasol sy'n ymwneud â rhoddion a benthyciadau a dderbyniwch mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol.

Fel trosolwg rhaid i chi:

- wirio bod rhoddion a dderbyniwch sy'n werth mwy na £500 yn dod o ffynonellau a ganiateir
- wirio bod benthyciadau y cewch eu cynnig sy'n werth mwy na £500 yn dod o ffynonellau a ganiateir cyn i chi eu derbyn
- ymgyfarwyddo â trothwyon cofrestru perthnasol yn y Canllaw i'r Rheolau
- adrodd am fanylion rhoddion a benthyciadau sy'n berthnasol i'r Cofrestrydd Buddiannau Ariannol Aelodau o fewn 28 diwrnod o'u derbyn, gan gynnwys rhai o'r un ffynhonnell yn yr un flwyddyn galendr sy'n cronni i fwy na'r trothwyon perthnasol
- dychwelyd unrhyw roddion na chaniateir a gewch o fewn 30 diwrnod o'u cael ac adrodd am y manylion i ni o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd y rhodd
- ad-dalu unrhyw fenthyciadau na chaniateir ar unwaith ac adrodd am y manylion i ni o fewn 30 diwrnod o derfynu'r benthyciad
- hysbysu'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch eich bod wedi cadw rhodd na chaniateir am fwy na 30 diwrnod ar ôl ei derbyn

### Rôl y Comisiynydd

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynnal y Cod Ymddygiad i Aelodau Seneddol y cytunwyd arno gan Dŷ'r Cyffredin. Mae'n rhaid i ASau adrodd am fanylion eu buddiannau ariannol i swyddfa'r Comisiynydd. Caiff y rhain eu cyhoeddi yn y Gofrestr Buddiannau Ariannol Aelodau. Mae rhoddion a benthyciadau sy'n destun i'w hadrodd o dan gategorïau 2(a), 2(b), 3 a 4 y Cod Ymddygiad yn ddarostyngedig i'r rheolau yn unol â PPERA.

Dylech hefyd sicrhau eich bod yn gyfarwydd gyda'r Cod Ymddygiad a'r Canllawiau i'r Rheolau o ran y Cod Ymddygadi, gan efallai bod y rheolau yn gofyn eich bod yn cofnodi buddion na fyddai'r Comisiwn yn eu hystryied yn roddion.

### Rôl y Comisiwn Etholiadol:

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rheoleiddiwr cyllid a gwariant gwleidyddol yn y DU. Rydym yn ceisio sicrhau bod tryloywder yn ein system cyllid gwleidyddol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd i roi cyngor a chanllawiau i Aelodau Seneddol ar gofnodi ac adrodd am roddion a benthyciadau a gânt mewn cysylltiad â'u gweithgareddau gwleidyddol.

Rydym yn cyhoeddi rhoddion a benthyciadau sy'n destun i'w hadrodd o dan gategorïau 2(a), 2(b), 3 a 4 y Canllaw i'r Rheolau ar ein gwefan. Rydym yn cael gwybodaeth gan y Comisiynydd am y rhoddion a benthyciadau perthnasol yr adroddwyd arnynt yn y categorïau hyn ac yn cyhoeddi'r manylion bob mis.

Rydym hefyd yn cyhoeddi manylion rhoddion a benthyciadau na chaniateir. Rhaid i chi adrodd am fanylion unrhyw roddion neu fenthyciadau na chaniateir **yn uniongyrchol** i ni o fewn 30 diwrnod i ddychwelyd y rhodd neu derfynu'r benthyciad.

# 6

## Gweithgareddau gwleidyddol

Aelodau Seneddol
Dim ond y rhoddion a benthyciadau a gynigir i chi ac a ddefnyddir gennych mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol fel AS y mae rheolau PPERA yn ymwneud â hwy. Mae eich gweithgareddau gwleidyddol fel AS yn cynnwys gweithgareddau yr ydych yn eu cyflawni mewn cysylltiad â'r swydd yr ydych yn ei dal.

Mae enghreifftiau cyffredin o'r hyn a ystyrir yn weithgareddau gwleidyddol i AS yn cynnwys:

- cynnal ymchwil ar bolisi penodol yr ydych yn ei hyrwyddo yn Senedd y DU
- cynnal digwyddiad yn eich etholaeth i ddwyn ynghyd gwahanol grwpiau ac unigolion i drafod mater neu bolisi penodol
- ymweld â gwlad arall er mwyn deall sut mae polisi penodol yn gweithio yno
- rhedeg eich swyddfa

Mae rheolau arbennig o ran ymweliadau tramor, gweler tudalen 13 y ddogfen hon.

**Aelodau Plaid**
Mae rheolau PPERA ar roddion a benthyciadau ar gyfer y rheiny y'u cynnigir, ac a ddefnyddir gennych chi mewn cysyll;tiad â'ch gweithgarwch fel aelod o blaid. Mae eich gweithgarwch fel aelod o blaid yn benodol yn cynnwys:

- hyrwyddo neu geisio ethol unrhyw berson i unrhyw safle, neu i unrhyw bwyllgor o'r blaid dan sylw;
- hyrwyddo neu geisio deis person fel ymgeisydd y bleid i'r hethol i swydd etholedig berthnasol; a
- hyrwyddo neu ddatblygu polisïau gydaa'r bwriad y byddant yn cael eu defnyddio gan y blaid

Nid yw'r gweithgareddau a restrir isod wedi eu cynnwys yn y rheolau a sonnir amdanynt yn y canllawiau hyn, fel AS neu fel aelod o blaid:

- gweithgareddau yr ydych yn eu cyflawni’n benodol mewn cysylltiad ag unrhyw swydd Weinidogaethol sydd gennych, yn hytrach na'r rheiny yn rhinwedd eich swydd fel Aelod Seneddol
- eich dyletswyddau seneddol, ar yr amod bod y costau cysylltiedig i gefnogi’r dyletswyddau hynny yn adferadwy neu’n cael eu hariannu drwy'r cynllun treuliau Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA)
- cymorthfeydd etholaeth a darparu cyfleusterau (heblaw gofod swyddfa parhaus) i'ch galluogi i gynnal cymorthfeydd etholaeth

Nid yw'r enghreifftiau a ddarperir uchod yn cynnwys popeth. Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest a rhesymol ar sail y ffeithiau ynghylch p’un a yw a rhodd neu fenthyciad wedi ei dderbyn mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol.

Dylech hefyd gofio efallai bod angen cofrestru’r rhoddion a dderbynir i dalu am yr uchod, gyda Comisiynydd Seneddol dros Safonau.

Pwysig

Os nad ydych yn siŵr a yw'r hyn yr ydych yn ei wneud yn ‘weithgaredd gwleidyddol', cysylltwch â ni am gyngor. Rydym yma i helpu.

# Trosolwg o roddion a benthyciadau

## Beth yw rhodd?

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, diffinnir rhodd fel rhodd o arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau:

- a roddir i chi gyda'r bwriad ei bod yn cael ei defnyddio neu ei bod o fudd i chi mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol fel Aelod Seneddol, a
- chanddi werth mwy na £500.

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- anrhegion o arian neu eiddo (eitemau, nwyddau neu wasanaethau)
- talu am dreuliau a ysgwyddwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gennych chi
- darparu eitemau, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau i chi at eich defnydd neu'ch budd chi, er enghraifft cael defnyddio swyddfa'n rhad ac am ddim neu am bris gostyngedig arbennig.

Mae rhoddion hefyd yn cynnwys noddi digwyddiad, cyhoeddiad, astudiaeth neu ymchwil a drefnwyd gennych chi neu ar eich rhan. Yn wahanol i fathau eraill o roddion, gall nawdd gynnwys trosglwyddo arian neu eiddo i chi ar delerau masnachol. O ran telerau masnachol mae hyn yn golygu lle mae'r eitem, nwyddau neu wasanaeth yn cael ei ddarparu am ei werth marchnad.

Mae'r gyfraith yn trafod nawdd a mathau eraill o roddion er mwyn darparu tryloywder ar y dulliau gwahanol o gymorth ariannol a ddarparwyd i chi. Ewch i dudalen 15 am ragor o wybodaeth am nawdd.

Yn unol â PPERA, nid yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd.

### Beth nad yw’n cyfrif fel rhodd?

Yn unol â PPERA, mae rhai mathau penodol o dâl a gwasanaethau i Aelodau Seneddol sydd wedi'u heithrio o’r rheolau ar roddion. Y rhain yw:

Pwysig

- amser gwirfoddolwyr
- unrhyw daliad o'r cronfeydd cyhoeddus ar gyfer eich diogelwch personol fel AS
- tâl neu lwfansau a dalwyd i chi fel AS, fel eich cyflog neu daliadau i gwrdd â’ch costau busnes neu dreuliau gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA)
- unrhyw log sy'n cronni o rodd. Er enghraifft, nid yw unrhyw log o rodd a dderbynnir ac yna sy’n cael ei dychwelyd fel un na chaniateir yn cael ei ystyried yn rhodd
- cyfleusterau y mae gennych hawl iddynt fel ymgeisydd mewn etholiad, fel cyfleuster post rhad ac am ddim
- rhodd tuag at eich treuliau etholiad fel ymgeisydd mewn etholiad a adroddid yn eich cofnod gwariant (er mewn rhai achosion efallai bydd hefyd angen i chi ei adrodd i’r Comsiynydd Seneddol dros Safonau)

## Beth yw benthyciad?

Yn unol â PPERA, mae rheolau ynglŷn â phwy all roi benthyg arian neu roi credyd neu sicrwydd i chi mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol fel AS.

Yn ein canllawiau, rydym yn cyfeirio at yr holl drafodion o'r math hwn fel 'benthyciadau'. Cynhwysir y trafodion canlynol o dan y rheolau:

- benthyciadau arian
- cyfleusterau credyd, megis cardiau credyd neu orddrafftiau
- sicrwydd neu warantau – er enghraifft gwarant personol gan gefnogwr ar forgais ar gyfer eich swyddfa etholaeth

Yn unol â PPERA, nid unrhyw fenthyciad sydd werth £500 neu lai yn fenthyciad.

## Gosod gwerth ar roddion a benthyciadau

**Rhoddion:**
Rhaid i chi osod gwerth ar unrhyw rodd nad yw'n arian. Gwerth rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn a dderbyniwch a faint (os o gwbl) yr ydych yn ei dalu amdano. Os cewch eiddo, nwyddau neu wasanaethau am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol, rhaid i chi eu prisio ar gyfradd y farchnad.

Er enghraifft:

| Cyfradd y farchnad ar gyfer nwyddau | Pris a dalwch | Gwerth y rhodd |
|---|---|---|
| £1,000 | £250 | **£750** |

Os yw'r rhoddwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r cyfraddau a godant ar gwsmeriaid eraill tebyg. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod faint mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau, a defnyddio hwn fel cyfradd y farchnad.

Dylech gadw cofnod o sut yr ydych wedi cyrraedd eich prisiad.

**Gostyngiadau masnachol** yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, megis gostyngiadau ar gyfer archebion swmp neu ostyngiadau tymhorol. **Gostyngiadau anfasnachol** yw gostyngiadau arbennig yr ydych chi, yn benodol, yn eu cael gan gyflenwyr.

**Benthyciadau**
Nodir y ffordd yr ydym yn gosod gwerth ar bob math o fenthyciad a reoleiddir yn y tabl isod:

| Math o fenthyciad | Gwerth |
|---|---|
| Benthyciad o arian | Y cyfanswm y byddwch yn ei fenthyg |
| Cyfleuster credyd | Y cyfanswm y gallwch ei fenthyg |
| Sicrwydd neu warant | Y mwyafswm y gallai'r benthyciwr fod yn atebol i'w dalu |

Pwysig

Mae'r rheolau yn berthnasol i fenthyciadau lle mae **unrhyw ran** o gyfanswm gwerth y benthyciad yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol, hyd yn oed os cymerir y benthyciad at ddiben arall.

Er enghraifft, petaech yn cymryd cerdyn credyd personol gyda therfyn o £2,000, ond dim ond yn defnyddio £1,000 o'r credyd sydd ar gael mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol, gwerth y benthyciad fyddai **£2,000.**

Os yw'r benthyciad yn caniatáu i unrhyw log gael ei ychwanegu at gyfanswm yr ydych yn ei fenthyg, nid oes angen i chi gynnwys hyn yng ngwerth y benthyciad.

12

# Rhoddion a benthyciadau a ganiateir

## Gan bwy gewch chi dderbyn rhoddion a benthyciadau?

Dim ond o ffynonellau a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion a benthyciadau. Mae'r ffynonellau a ganiateir yn amrywio ychydig yn dibynnu ar p'un a ydych yn cynrychioli etholaeth ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon.

Ffynhonnell a ganiateir ar gyfer ASau sy'n cynrychioli etholaethau yn **naill ai** Prydain Fawr neu Ogledd Iwerddon yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol yn y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a chymynroddion
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- y rhan fwyaf o gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP) wedi'i chofrestru yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar wedi'i chofrestru yn y DU neu gymdeithas gofrestredig neu Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus cofrestredig yng Ngogledd Iwerddon
- cymdeithas anghorfforedig y DU sydd wedi'i lleoli ac yn cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Ffynonellau ychwanegol a ganiateir ar gyfer ASau sy'n cynrychioli etholaethau yng Ngogledd Iwerddon **yn unig** yw:

- dinesydd Gwyddelig (gan gynnwys cymynroddion)
- plaid wleidyddol wedi'i chofrestru yng Ngogledd Iwerddon
- plaid wleidyddol wedi'i chofrestru yn Iwerddon
- y rhan fwyaf o gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn Iwerddon
- undeb llafur wedi'i chofrestru yn Iwerddon
- cymdeithas adeiladu wedi'i chofrestru yn Iwerddon
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP) wedi'i chofrestru yn Iwerddon sy'n cynnal busnes ar ynys Iwerddon
- cymdeithas gyfeillgar wedi'i chofrestru yn Iwerddon
- cymdeithas anghorfforedig wedi'i lleoli yn Iwerddon ac yn cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn Iwerddon

Pwysig

Er y gallwch dderbyn rhoddion gan rai mathau o ymddiriedolaeth, rhaid i chi **beidio** â chymryd benthyciadau gan ymddiriedolaethau.

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion oddi wrth rhai mathau o ymddiriedolaethau ac o gymynroddion. Mae'r rheolau ar roddion hyn yn gymhleth, felly mae croeso i chi gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.

Dylai ASau nodi nad yw Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel a Gibraltar yn rhan o'r DU ac nad yw unigolion na sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yno yn rhoddwyr nac yn fenthycwyr a ganiateir o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.

# Ymweliadau tramor

Fel rhan o'ch dyletswyddau fel AS, efallai y byddwch yn cael gwahoddiad i gynnal ymweliadau tramor y tu allan i'r DU mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol.

Gallwch dderbyn rhoddion gan sefydliadau ac unigolion nad ydynt fel arfer yn rhoddwyr a ganiateir ar yr amod mai diben y rhodd yw cwrdd â chostau cymwys penodol ar gyfer ymweliad tramor. Mae'r costau cymwys yn cynnwys:

- costau teithio, er enghraifft teithiau tramor neu logi car drwy gydol cyfnod eich ymweliad
- costau llety
- costau cynhaliaeth

**Dim ond** os nad ydynt yn fwy na'r swm rhesymol ar gyfer costau'r ymweliad y caniateir rhoddion ar gyfer ymweliadau tramor.

Os yw mudiad neu unigolyn yn talu costau ymweliad tramor heb roi rhodd ariannol i chi, dylech wneud amcangyfrif gonest a rhesymol o gostau'r daith yn seiliedig ar yr hyn y byddai darparwr masnachol tebyg wedi'i godi fel tâl.

Er enghraifft, mae sefydliad wedi'i leoli yn yr Unol Daleithiau yn trefnu teithiau hedfan a llety i chi fynychu cynhadledd i drafod maes neu fater polisi penodol.

Yr ydych yn gwneud ymholiadau gyda'r cwmni hedfan yr ydych yn hedfan ag ef a'r gwesty lle'r ydych yn aros, ac yr ydych yn canfod y byddai gwerth masnachol arferol eich hedfan a llety yn £1,000 a £950 yn y drefn honno. Cyfanswm gwerth y rhodd felly yw **£1,950.**

Pwysig

Nid yw'r rhan fwyaf o ymweliadau y telir amdanynt yn bennaf o gronfeydd cyhoeddus, megis ymweliad tramor ar ran Pwyllgor Dethol y Tŷ, yn cael eu hystyried yn rhoddion ac maent wedi'u heithrio o'r rheolau.

Ceir mwy o wybodaeth yma: Cod Ymddygiad i Aelodau Seneddol a Chanllaw i'r Rheolau o ran Ymddygiad Aelodau

# Nawdd

## Beth yw nawdd?

Mae nawdd yn golygu unrhyw arian neu eiddo arall (eitemau, nwyddau neu wasanaethau) a ddarperir i chi i helpu, neu y mae'n rhesymol tybio y bydd yn helpu, i dalu costau mewn cysylltiad ag:

- unrhyw gynhadledd, cyfarfod neu ddigwyddiad arall (yn cynnwys digwyddiadau neu gynadleddau digidol)
- pharatoi, cynhyrchu, neu ddosbarthu cyhoeddiad (print neu ddigidol), neu
- unrhyw astudiaeth neu waith ymchwil

lle caiff y rhain eu trefnu gennych chi neu ar eich rhan.

Yn wahanol fathau eraill o roddion, gall nawdd gynnwys taliadau i chi ar delerau masnachol. Hyd yn oed os ydych chi a'r noddwr yn ystyried hyn fel trefniant masnachol, mae taliadau nawdd yn fath o rodd. Mae'r un gofynion adrodd a chaniatâd ar gyfer rhoddion eraill yn berthnasol hefyd i roddion a dderbynnir fel nawdd.

Caiff nawdd ei reoleiddio oherwydd mae'n cael effaith debyg i fathau eraill o roddion. Ar gyfer nawdd a mathau eraill o roddion, mae'r gyfraith yn darparu tryloywder ar fuddion ariannol a ddarperir i chi.

**Pryd mae taliad yn helpu i dalu costau?**

Gan amlaf, gellir tybio'n rhesymol bod taliad a wneir mewn cysylltiad â digwyddiad, cyhoeddiad neu waith ymchwil yn cael ei wneud i helpu i dalu ei gostau. Mae bwriad y noddwr yn amherthnasol wrth bennu a yw taliad yn nawdd. Os mai un o ddibenion y taliad oedd eich helpu i dalu'r costau hyn, neu gellir tybio'n rhesymol mai un o'r dibenion oedd i'ch helpu i dalu'r costau hyn, yna mae'n nawdd.

Nid oes rhaid defnyddio taliad i dalu costau'n uniongyrchol iddo gyfrif fel nawdd.

**Prisio nawdd**
Gwerth y nawdd yw swm llawn y taliad a dderbynnir gan y noddwr. Ni ddylech wneud unrhyw ddidyniadau ar gyfer unrhyw fudd posibl i'r noddwr neu lle mae costau gwirioneddol y digwyddiad, cyhoeddiad, astudiaeth neu waith ymchwil yn llai na'r swm a dderbynnir gan y noddwr.

## Pa daliadau nad ydynt yn cyfrif fel nawdd?

Nid yw'r taliadau canlynol yn cyfrif fel nawdd:

- costau mynediad ar gyfer cynadleddau, cyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill
- pris prynu cyhoeddiadau, neu unrhyw gost arall i'w cyrchu
- taliadau cyfradd masnachol ar gyfer hysbysebion mewn cyhoeddiadau

Er nad yw'r taliadau hyn yn cyfrif fel nawdd, gallant yn hytrach fod yn fath gwahanol o rodd. Os nad yw taliad yn nawdd, dylech ystyried a yw'r taliad yn fath arall o rodd, er enghraifft, rhodd ariannol neu arian a wariwyd yn talu costau rydych wedi'u hysgwyddo.

**Costau mynediad**
Ni fydd costau mynediad ar gyfer eich digwyddiadau yn cyfrif fel nawdd. Er enghraifft, tocynnau mynediad i gynadleddau neu ffi fynediad i fynychu digwyddiad a drefnwyd gennych chi neu ar eich rhan.

Fodd bynnag, os ydych chi'n codi tâl neu'n cael eich talu mwy na gwerth y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn y digwyddiad, bydd y swm yma'n rhodd os yw'n fwy na £500. Gweler yr enghreifftiau cyffredin o nawdd am ragor enghreifftiau ac arweiniad ar hyn.

**Hysbysebion mewn cyhoeddiadau**
Ni fydd taliadau i roi hysbysebion yn eich cyhoeddiadau ar y gyfradd fasnachol yn cael eu cyfrif fel nawdd. Er enghraifft, gallwch greu cyhoeddiadau sy'n hyrwyddo polisïau i'r rhain gael eu mabwysiadu gan blaid. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i hysbysebu mewn cyhoeddiadau'n unig ac nid yw'n

cynnwys mathau eraill o hysbysebu, megis baneri digwyddiadau.

Er mwyn cyfrifo a yw taliadau a wnaed i roi hysbysebion mewn cyhoeddiad yn rhodd, rhaid i chi gyfrifo’r gyfradd fasnachol i godi tâl am yr hysbysebion hyn. Y gyfradd fasnachol fydd y gyfradd gyfartalog ar gyfer hysbysebion tebyg a gynigir gan ddarparwyr masnachol.

Os bydd rhywun yn talu mwy na’r gyfradd fasnachol am hysbyseb mewn cyhoeddiad, bydd swm llawn y taliad yn cyfrif fel nawdd. Mae hyn oherwydd na fyddai'r eithriad yn berthnasol mwyach.

## Enghreifftiau cyffredin o nawdd

### Ciniawau a digwyddiadau codi arian

Bydd taliad a wneir tuag at dalu costau swper neu dderbyniad a drefnir gennych chi neu ar eich rhan yn cyfrif fel nawdd.

> Er enghraifft, mae unigolyn yn talu £5,000 i noddi cinio a drefnir gan Aelod Seneddol. Mae hyn yn cynnwys bwrdd yn y cinio i’r unigolyn a’i westeion.
>
> Mae’n rhaid i’r Aelod Seneddol wirio a yw’r unigolyn yn rhoddwr a ganiateir cyn iddo dderbyn y rhodd a chofrestru manylion y rhodd yn Nghofrestr Buddiannau Ariannol yr Aelodau.

Os ydych yn gwerthu tocynnau i ginio neu dderbyniad sydd wedi ei drefnu gennych chi neu ar eich rhan, ni fydd hyn yn cyfrif fel nawdd gan nad yw costau mynediad i ddigwyddiadau’n cyfrif fel nawdd.

Fodd bynnag, mae’n bwysig eich bod yn cyfrifo gwerth marchnadol y gwasanaeth a ddarparwyd yn y digwyddiad, gan y bydd y gwahaniaeth rhwng y gwerth a’r swm sy’n cael ei dalu i chi yn cyfrif fel rhodd nad yw’n nawdd os yw’r gwerth hwn yn fwy na £500.

Er enghraifft, mae Aelod Seneddol yn gwerthu tocynnau i'w ginio. Mae costau'r digwyddiad fel a ganlyn:

• gwerth marchnadol y gwasanaeth a ddarperir fesul person: £30

• pris tocyn: £120

Yn yr enghraifft hon, mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnadol y gwasanaeth a ddarperir fesul person a'r swm a godir yn £90. Gan nad yw gwerth y rhodd yn fwy na £500 yn yr achos hwn, nid oes rhodd wedi ei gwneud.

Yn yr un digwyddiad, mae'r Aelod Seneddol hefyd yn gwerthu byrddau i 10 o westeion.

• gwerth marchnadol pob bwrdd: £300

• pris y bwrdd: £1,000

Yn yr enghraifft hon, mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth pob bwrdd a'r swm a godwyd yn £700. Bydd unrhyw un sy'n prynu bwrdd yng nghinio'r gynhadledd felly'n cyfrannu £700 i'r Aelod Seneddol. Gan mai rhoddion gwerth mwy na £500 gan ffynhonnell a ganiateir yn unig y gall yr Aelod Seneddol eu derbyn, dim ond y rhai a ganiateir fydd yn gallu prynu bwrdd.

**Cyhoeddiadau**

Os ydych chi'n derbyn taliadau tuag at gostau paratoi, cynhyrchu, neu ddosbarthu cyhoeddiad mewn perthynas â'ch gweithgareddau gwleidyddol, bydd hyn yn cyfrif fel nawdd.

Er enghraifft, mae cwmni'n talu £12,000 i noddi cyhoeddiad gan Aelod Seneddol i hyrwyddo polisïau o fewn y blaid. Mae hyn yn cynnwys enw a logo'r cwmni yn cael eu harddangos yn y cyhoeddiad a chael ei hyrwyddo fel partner ymchwil ar y cyd.

Mae'n rhaid i'r Aelod Seneddol wirio a yw'r cwmni yn rhoddwr a ganiateir cyn iddo dderbyn y rhodd a chofrestru manylion y rhodd yng Nghofrestr Buddiannau Ariannol yr Aelodau.

Os ydych yn gwerthu hysbysebion yn eich cyhoeddiadau ar y gyfradd fasnachol, ni fydd hyn yn nawdd gan nad yw taliadau a wnaed i roi hysbysebion yn eich cyhoeddiadau ar y gyfradd fasnachol yn cyfrif fel nawdd.

Er mwyn cyfrifo a yw taliadau a wnaed i roi hysbysebion mewn cyhoeddiad yn rhodd, rhaid i chi gyfrifo'r gyfradd fasnachol i godi tâl am yr hysbysebion hyn. Y gyfradd fasnachol fydd y gyfradd gyfartalog ar gyfer hysbysebion tebyg a gynigir gan ddarparwyr masnachol.

Os bydd rhywun yn talu mwy na'r gyfradd fasnachol am hysbyseb mewn cyhoeddiad, bydd swm llawn y taliad yn cyfrif fel nawdd. Mae hyn oherwydd na fyddai'r eithriad yn berthnasol mwyach.

## Sut ydych chi'n penderfynu os gallwch dderbyn rhodd neu fenthyciad?

### Rhoddion

Os ydych yn derbyn unrhyw rodd o fwy na £500, rhaid i chi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr a bod y rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir. Gallwch ond dderbyn rhodd gan ffynhonell a ganiateir

Pan fyddwch yn cael rhodd, mae gennych 30 diwrnod i benderfynu os gallwch ei derbyn. Mae'r Comisiynydd Seneddol dros Safonau yn darparu fod gyda chi 28 diwrnod o dderbyn rhodd i'w adrodd i'r Comisiynydd.

Dylech ofyn i chi eich hun:

- 'a ydw i'n sicr fy mod yn gwybod gan bwy mae'r rhodd hon?'
- 'a yw'r rhoddwr yn un a ganiateir?'

Os:

- nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu
- am unrhyw reswm na allwch fod yn siŵr o wir hunaniaeth y ffynhonnell

rhaid i chi ei dychwelyd i'r rhoddwr o fewn y cyfnod o 30 diwrnod yn dechrau ar y dyddiad y cawsoch y rhodd.

Os ydych yn derbyn rhodd o ffynhonnell na allwch ei chanfod (er enghraifft rhodd ariannol ddienw gwerth £750), rhaid i chi ei dychwelyd at naill ai:

- y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd

Os nad ydych yn gallu adnabod naill ai'r person a drosglwyddodd y rhodd i chi, neu'r sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd, rhaid i chi anfon y rhodd i ni. Byddwn yn ei thalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

**Benthyciadau**

Dim ond gan fenthycwyr a ganiateir y cewch dderbyn benthyciadau. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y benthyciwr yn un a ganiateir **cyn** i chi gymryd y benthyciad gan nad oes cyfnod o 30 diwrnod cyfatebol ar gyfer gwirio benthyciadau a ganiateir. Mae trefnu benthyciad na chaniateir yn drosedd.

Pwysig

Dylech hefyd gynnal gwiriadau rheolaidd drwy gydol cyfnod y benthyciad i wneud yn siŵr bod eich benthyciwr yn dal i fod yn un a ganiateir. Mae hyn oherwydd bod rhaid i'r benthyciwr barhau i fod yn un ganiateir dros gyfnod cyfan y benthyciad.

# Rhoddion a roddir ar ran eraill

Os gewch chi rodd ar ran rhywun arall, rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r rhodd i chi (yr asiant) ddweud wrthych:

- fod y rhodd ar ran rhywun arall
- manylion y rhoddwr gwirioneddol

Enghraifft o rywun yn gweithredu fel asiant yw pan fydd trefnydd digwyddiad yn trosglwyddo enillion o ginio a gynhaliwyd yn benodol i godi arian ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol.

Os oes gennych reswm i gredu y gallai rhywun fod yn gweithredu fel asiant ond nad ydynt wedi dweud wrthych, dylech ganfod y ffeithiau fel y gallwch wneud y gwiriadau cywir. **Os ydych yn ansicr pwy yw'r rhoddwr gwirioneddol, rhaid i chi beidio â derbyn y rhodd**.

Os nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu os am unrhyw reswm na allwch fod yn sicr o wir hunaniaeth y ffynhonell, ame'n rhaid i chi ei ddychwelyd yn y cyfnod yma o 30 diwrnod.

# Pryd ydych chi'n 'cael' rhodd?

Fel arfer byddwch yn 'cael' rhodd ar y diwrnod yr ydych yn cymryd perchnogaeth ohoni.

Er enghraifft:

- os ydych yn cael siec, byddwch yn cael y rhodd ar y dyddiad y mae'r siec yn clirio.
- os yw rhodd yn cael ei throsglwyddo'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc byddwch yn cael y rhodd ar y dyddiad y mae'n cael ei dderbyn i'r cyfrif

- os ydych yn cael nwyddau neu wasanaethau am ddim – megis darparu cyfrifiadur am ddim, byddwch yn cael y rhodd pan fyddwch yn cymryd perchnogaeth o'r eitem

# Sut i wirio rhoddion a benthyciadau a ganiateir o ffynonellau'r DU

## Rhoddion a benthyciadau gan unigolion

**Pleidleiswyr tramor: cyngor ar newidiadau arfaethedig i'r gyfraith**

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynlluniau i gyflwyno cap blynyddol o £100,000 ar gyfer rhoddion a benthyciadau gan bleidleiswyr tramor. Bwriad y Llywodraeth yw i hyn fod yn ôl-berthnasol i unrhyw roddion a dderbynnir neu fenthyciadau a drefnir o 25 Mawrth 2026 ymlaen. Byddai'r mesurau hyn yn cael eu cyflwyno fel rhan o Fil Cynrychiolaeth y Bobl y Llywodraeth.

Byddai'r cap yn berthnasol i bob rhodd a benthyciad a wneir gan bleidleisiwr tramor, nid dim ond y rhai i dderbynnydd unigol. Golyga hyn na allai pleidleisiwr tramor wneud mwy na chyfanswm o £100,000 mewn rhoddion a benthyciadau i unrhyw endid a reoleiddir mewn blwyddyn galendr. Ni fyddai rhoddion a benthyciadau i bleidiau sydd wedi'u cofrestru yng Ngogledd Iwerddon gan ddinasyddion Gwyddelig yn cael eu heffeithio.

Bwriad y Llywodraeth yw i hyn fod yn berthnasol i roddion i bleidiau; ymgeiswyr di-blaid; deiliaid swyddi etholedig; aelodau plaid a chymdeithasau aelodau; ymgyrchwyr refferendwm a deisebau adalw; ac ymgeiswyr (yn amodol ar gydsyniad deddfwriaethol yng Nghymru a'r Alban).

Unwaith y bydd y newidiadau arfaethedig i'r gyfraith yn dod i rym, byddai gan dderbynwyr 30 diwrnod i ddychwelyd unrhyw roddion a dderbyniwyd neu ddod ag unrhyw fenthyciadau a drefnwyd ar 25 Mawrth 2026 neu ar ôl hynny sy'n fwy na'r cap blynyddol o £100,000 i ben.

Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r gyfraith hyd yma. Mae ein canllawiau'n parhau i adlewyrchu'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai yr hoffech ystyried gweithredu nawr fel eich bod yn barod ar gyfer unrhyw newidiadau i'r gyfraith yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Nodi a chofnodi pa roddion sydd wedi'u gwneud gan bleidleiswyr tramor. Mae pleidleiswyr tramor wedi'u nodi ar y gofrestr etholiadol. Os nad oes gennych fynediad at y gofrestr etholiadol, efallai y byddwch yn dymuno gofyn am y wybodaeth hon gan roddwyr wrth wirio a ydynt yn rhai a ganiateir.
- Gwirio cofrestrau o roddion a benthyciadau yr adroddwyd arnynt i nodi a allai unrhyw roddwr tramor fod wedi rhoi neu fenthyca mwy na £100,000 ym mhob blwyddyn galendr
- Sicrhau bod gennych fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer rhoddwyr tramor, fel y gallwch gysylltu â nhw i ofyn am unrhyw ddatganiadau sydd eu hangen
- Sicrhau eich bod yn dal gafael ar adnoddau digonol i ddychwelyd rhoddion neu ddod â benthyciadau gan bleidleiswyr tramor i ben os oes angen

Cyngor dros dro yw hwn, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y cynigion hyn. Byddwn yn diweddaru'r nodyn cyngor hwn pan fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol. Am wybodaeth bellach, gweler y datganiad ysgrifenedig gweinidogol hwn neu cysylltwch â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**Beth sy'n gwneud unigolyn yn un a ganiateir?**
Rhaid i unigolion fod ar gofrestr etholiadol y DU ar adeg y derbynir rhodd. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

**Sut ydych chi'n gwirio p'un a yw'n un ganiateir?**
Gallwch ddefnyddio'r gofrestr etholwyr i wirio a ganiateir yr unigolyn. Gallwch drefnu i weld copi o'r gofrestr etholiadol gyda'r awdurdod lleol lle mae'r rhoddwr yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

Gallwch ganfod pa awdurdod lleol y mae angen i chi gysylltu ag ef drwy edrych ar god post y rhoddwr ar wefan fy mhleidlais i. I roddwyr yng Ngogledd Iwerddon, dylech gysylltu â Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon (EONI).

Rhaid i chi wirio'r gofrestr a'r diweddariadau misol yn ofalus i sicrhau bod y person ar y gofrestr ar y dyddiad yr ydych yn derbyn y rhodd.

Mewn rhai amgylchiadau, mae pobl yn cael eu cofrestru'n ddienw. Os yw rhoddwr wedi'i gofrestru'n ddienw, cysylltwch â ni am gyngor.

## Rhoddion a benthyciadau gan gwmnïau

**Beth sy'n gwneud cwmni yn un a ganiateir?**

Mae cwmni yn un a ganiateir os yw:
- wedi cofrestru fel cwmni yn Nhŷ'r Cwmnïau
- wedi'i ymgorffori mewnyn y DU, ac
- yn cynnal busnes yn y DU

Rhaid i chi fod yn siŵr bod y cwmni yn cwrdd â phob un o'r tri maen prawf.

**Sut ydw i'n gwirio cofrestriad cwmni?**
Dylech wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmniau. Dylech edrych ar y cofnod cofrestru llawn ar gyfer y cwmni.

**Sut ydych chi'n gwirio a yw'r cwmni'n cynnal busnes yn y DU?**

Rhaid i chi fod yn fodlon bod y cwmni yn cynnal busnes yn y DU. Gall y busnes fod yn un nid er elw.

Hyd yn oed os oes gennych wybodaeth bersonol uniongyrchol o'r cwmni, dylech wirio cofrestr Tŷ'r Cwmnïau i weld os:

- yw'r cwmni wedi cael ei ddiddymu, yn segur, neu ar fin cael ei ddileu o'r gofrestr

- yw cyfrifon y cwmni a’r ffurflen flynyddol yn hwyr

Mae’n bosibl y bydd cwmni yn dal i gynnal busnes os yw’n cael ei ddiddymu, yn segur neu’n hwyr yn cyflwyno dogfennau, ond dylech wneud gwiriadau ychwanegol er mwyn bodloni eich hun mai dyna'r achos.

Ar gyfer unrhyw gwmni, dylech ystyried edrych ar:

- wefan y cwmni
- masnach berthnasol, cyfeirlyfrau ffôn neu wefannau dibynadwy
- y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd i Dŷ’r Cwmnïau

# Rhoddion a benthyciadau gan bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

### Beth sy'n gwneud partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn un a ganiateir?

Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP) yn un a ganiateir os yw:

- wedi cofrestru fel LLP yn Nhŷ'r Cwmnïau
- yn cynnal busnes yn y DU

### Sut ydych chi'n gwirio p’un a yw’n un a ganiateir?

Dylech wirio'r gofrestr yn Nhŷ’r Cwmniau. Dylech edrych ar y cofnod cofrestru llawn ar gyfer y cwmni.

Mae angen i chi edrych ar rif cofrestredig yr LLP. Dim ond rhifau sy'n dechrau gyda OC, SO neu NC sy’n LLPs a ganiateir.

Fel gyda chwmnïau, rhaid i chi fod yn fodlon fod yr LLP yn cynnal busnes yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut ydych yn gwirio os yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?'.

# Rhoddion a benthyciadau gan gymdeithasau anghorfforedig

### Beth yw cymdeithas anghorfforedig?

Yn gyffredinol, cymdeithas anghorfforedig yw cymdeithas sydd â dau unigolyn neu fwy sydd wedi dod ynghyd i gyflawni diben a rennir.

Mae gan gymdeithas anghorfforedig aelodaeth adnabyddadwy sydd wedi'i rhwymo ynghyd gan reolau adnabyddadwy neu gytundeb rhwng yr aelodau. Mae'r rheolau hyn yn nodi sut y dylid rhedeg a rheoli'r gymdeithas anghorfforedig.

Weithiau, efallai y caiff y rheolau eu ffurfioli, er enghraifft mewn cyfansoddiad ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid oes rhaid eu ffurfioli.

Er enghraifft, gall clybiau aelodau fod yn gymdeithasau anghorfforedig weithiau.

### Beth sy'n gwneud cymdeithas anghorfforedig yn ffynhonnell a ganiateir?

Mae cymdeithas anghorfforedig yn ffynhonnell a ganiateir:

- os bydd ganddi fwy nag un aelod
- os yw'r brif swyddfa yn y DU
- os yw'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Rhaid i chi fod yn siŵr bod y gymdeithas anghorfforedig yn bodloni pob un o'r tri maen prawf.

### Sut rydych yn cadarnhau'r hyn a ganiateir?

Nid oes unrhyw gofrestr o gymdeithasau anghorfforedig. Rhaid asesu a yw cymdeithasau anghorfforedig yn ffynonellau a ganiateir fesul achos felly.

Os nad ydych yn siŵr a yw cymdeithas yn bodloni'r meini prawf, dylech ystyried a yw'r rhodd gan yr unigolion ynddi mewn gwirionedd (yn hytrach na'r gymdeithas) neu a oes rhywun yn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant dros eraill.

Os credwch mai felly y mae, rhaid i chi gadarnhau bod pob un o'r unigolion a gyfrannodd fwy na £50 yn rhoddwyr a ganiateir a'u trin fel y rhoddwyr.

Rhaid i chi sicrhau bod gan y gymdeithas anghorfforedig fwy nag un aelod a bod ei phrif swyddfa yn y DU.

Rhaid i chi gadarnhau bod y gymdeithas anghorfforedig yn cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

Os bydd cymdeithas anghorfforedig yn rhoi rhoddion gwleidyddol gwerth mwy na £37,270 yn ystod blwyddyn galendr, dylech ei hysbysu bod yn rhaid iddi roi gwybod i ni am hyn. Gweler ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am gymdeithasau anghorfforedig.

Os hoffech gael mwy o gyngor ar gadarnhau p'un a yw cymdeithasau anghorfforedig yn rhoddwyr a ganiateir mewn achosion penodol, cysylltwch â ni.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gallwch wirio a yw’r gwahanol fathau o roddwyr yn rhai a ganiateir:

| **Math o roddwr** | **Gofyniad** | **Ble i wirio** |
|---|---|---|
| Plaid wleidyddol | Rhaid i’r blaid fod wedi ei chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol Prydain Fawr | Y Comisiwn Etholiadol: www.comisiwnetholiadol.org.uk |
| Undeb llafur | Wedi ei rhestru fel undeb llafur gan y Swyddog Ardystio | Y Swyddog Ardystio www.certoffice.org |
| Cymdeithas adeiladu | Cymdeithas adeiladu o fewn ystyr y Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 | Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk |
| Cymdeithas gyfeillgar/ diwydiannol a darbodus | Cofrestrwyd o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymuned 2014 neu Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (GI) 1969 | Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk |

# Sut i wirio rhoddion a benthyciadau a ganiateir o ffynonellau Gwyddelig

Pwysig

**Dim ond** i ASau sy'n cynrychioli etholaethau yng Ngogledd Iwerddon y mae'r adran hon yn berthnasol**.**

| **Math o roddwr** | **Gofyniad** | **Ble i wirio** |
|---|---|---|
| Unigolyn | Yn gymwys i gael un o'r canlynol: pasbort Gwyddelig, tystysgrif Wyddelig o genedligrwydd, tystysgrif Wyddelig o frodori | Gyda'r rhoddwr - mae'n rhaid i chi gael copi o un o'r dogfennau a restrir wedi'u hardystio gan Adran Materion Tramor Iwerddon |
| Plaid wleidyddol | Yn ymddangos ar gofrestr pleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon neu;<br><br>Cofrestr Pleidiau Gwleidyddol Iwerddon* | Y Comisiwn Etholiadol: www.comisiwnetholiadol.org.uk<br><br>Tai'r Oireachtas: http://www.oireachtas.ie/parliament |
| Cwmni | Ymddangos ar gofrestr Cwmnïau Iwerddon, wedi ei ymgorffori yn yr UE ac yn cynnal busnes ar Ynys Iwerddon | Swyddfa Cofrestru Cwmnïau: https://www.cro.ie |

| **Math o roddwr** | **Gofyniad** | **Ble i wirio** |
|---|---|---|
| Undeb llafur | Cofrestrwyd gan Gofrestrydd Cymdeithasau Cyfeillgar Iwerddon* | Swyddfa Cofrestru Cwmnïau: https://www.cro.ie |
| Cymdeithas adeiladu | Cofrestrwyd gan y Banc Canolog ac Awdurdod Gwasanaethau Ariannol Iwerddon* | Banc Canolog ac Awdurdod Gwasanaethau Ariannol Iwerddon: http://www.centralbank.ie |
| Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | Cofrestrwyd gan Gofrestrydd Cwmnïau Iwerddon ac yn cynnal busnes ar Ynys Iwerddon* | Swyddfa Cofrestru Cwmnïau: https://www.cro.ie |
| Cymdeithas darbodus Cyfeillgar / diwydiannol | Cofrestrwyd o dan Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 neu Ddiwydiannol a Darbodus* | Swyddfa Cofrestru Cwmnïau https://www.cro.ie |

Pwysig

***Rhaid i bob corff y cyfeirir atynt yn y tabl fod â swyddfa lle mae'n cynnal ei brif weithgareddau ohoni naill ai yn Iwerddon neu Ogledd Iwerddon er mwyn bod yn ffynhonnell a ganiateir**

## Cymdeithas Anghorfforedig Wyddelig

Os cynigir rhodd neu fenthyciad i chi gan gymdeithas anghorfforedig Wyddelig cysylltwch â ni am gyngor.

## Ymddiriedolaethau Gwyddelig

Gallwch dderbyn rhoddion gan rai ymddiriedolaethau Gwyddelig, ond nid benthyciadau. Os cynigir rhodd i chi gan ymddiriedolaeth Wyddelig, cysylltwch â ni am gyngor.

# Cofnodi ac adrodd am roddion a benthyciadau

## Cofnodi rhoddion a benthyciadau a ganiateir

Os ydych yn derbyn rhodd neu drefnu benthyciad y mae'n ofynnol i chi adrodd amdanynt i'r Cofrestrydd, rhaid i chi gofnodi’r manylion hyn:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr neu'r benthyciwr
- os yw’r rhoddwr yn dal swydd etholedig, nodwch y swydd honno
- Statws y rhoddwr gan gynnwys, (os yw’r rhoddwr neu’r benthycwr yn gwmni), eu rhif cwmni cofrestredig
- os yw'r rhoddwr neu fenthyciwr yn gwmni, eu rhif cwmni cofrestredig
- y swm yn achos rhodd ariannol neu fenthyciad, neu natur a gwerth y rhodd (os yw'n rhodd arian parod)
- y dyddiad y cafwyd a derbyniwyd y rhodd neu’r dyddiad y cymerwyd y benthyciad

Os ydych yn cynrychioli etholaeth yng Ngogledd Iwerddon a’ch bod yn derbyn rhodd gan unigolyn Gwyddelig, nid oes angen i chi gofnodi eu cyfeiriad.

Rhaid i chi hefyd gofnodi'r wybodaeth ychwanegol ganlynol ar gyfer benthyciadau:

- y dyddiad y mae'r benthyciad i fod i gael ei ad-dalu (neu ddatganiad ei fod yn amhenodol)
- y gyfradd llog, neu os yw'r gyfradd yn amrywio sut y bydd yn cael ei chyfrifo
- p’un a oes unrhyw sicrwydd wedi cael ei roi ar gyfer y benthyciad

Os yw'r rhoddwr neu fenthyciwr yn unigolyn yn y DU, rhaid i chi gofnodi eu cyfeiriad fel y'i dangosir ar y gofrestr etholiadol berthnasol. Os yw'r rhoddwr yn etholwr tramor, rhaid i chi gofnodi eu cyfeiriad cartref. Mae hyn oherwydd na fydd unrhyw gyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

Os yw'r rhoddwr neu fenthyciwr yn gwmni, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad cofrestredig a rhif cwmni’r rhoddwr fel y'i dangosir ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

Os yw'r rhoddwr neu fenthyciwr yn gymdeithas anghorfforedig, rhaid i chi gofnodi'r prif gyfeiriad swyddfa. Mae hyn oherwydd nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig i gyfeirio ati.

### Ymweliadau tramor

Os ydych yn derbyn rhodd i dalu costau ymweliad tramor, rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- y lle’r ymwelwyd ag ef
- pwrpas yr ymweliad
- enw'r person neu'r sefydliad a oedd yn cwrdd â chostau eich ymweliad
- gwerth y cymorth ariannol a ddarparwyd ar gyfer yr ymweliad, gyda disgrifiad byr, ne swm unrhyw rodd ariannol tuag at y costau hyn

### Gofynion ychwanegol ar gyfer rhoddion a benthyciadau o ffynonellau Gwyddelig

Rhaid i ASau sy'n cynrychioli etholaethau Gogledd Iwerddon ac sy'n derbyn rhoddion neu gymryd benthyciadau gan rai ffynonellau Gwyddelig a ganiateir ddarparu rhywfaint o ddogfennaeth ychwanegol ar gyfer rhoddion a benthyciadau y maent yn adrodd amdanynt. Dengys y tabl isod beth yw’r gofynion:

| Rhoddwr | Gofyniad |
|---|---|
| Unigolyn | Copi o un o'r dogfennau canlynol sydd wedi ei hardystio gan Adran Materion Tramor Iwerddon:<br>• pasbort Gwyddelig y rhoddwr<br>• tystysgrif o genedligrwydd Gwyddelig y rhoddwr<br>• tystysgrif brodori Gwyddelig y rhoddwr |
| Cymdeithas Anghorfforedig Wyddelig | Datganiad gan gyfreithiwr sy'n ymarfer yn yr Iwerddon yn cadarnhau enw a chyfeiriad y gymdeithas, a'i bod yn gymdeithas anghorfforedig. |

Important

Rydym yn argymell, yn ymarferol, fod angen i chi gael gafael ar unrhyw ddogfennau gofynnol cyn i chi dderbyn rhodd neu fenthyciad. Cysylltwch â ni os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor ynglŷn â chael y dogfennau hyn

# Cofnodi rhoddion a benthyciadau na chaniateir

### Rhoddion yr ydych wedi eu dychwelyd

Os ydych yn derbyn rhodd o ffynhonnell na chaniateir, rhaid i chi ei dychwelyd a chofnodi'r manylion hyn:

- swm neu natur y rhodd a'i gwerth
- enw a chyfeiriad y rhoddwr (oni bai bod y rhodd wedi'i rhoi yn ddienw)
- os rhoddwyd y rhodd yn ddienw, manylion am sut y cafodd y rhodd ei gwneud
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y dychwelsoch y rhodd
- y camau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, y person neu'r sefydliad y dychwelwyd hi iddo)

Os ydych yn derbyn rhodd o ffynhonnell na allwch ei chanfod (er enghraifft rhodd ddienw gwerth £750), rhaid i chi ei dychwelyd at naill ai:

- y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd

Os nad ydych yn gallu nodi'r un o'r ddau, mae'n rhaid i chi ei anfon atom ni. Byddwn yn ei dalu i gronfa gydgrynoedig y Llywodraeth.

> Os nad ydych yn gallu adnabod naill ai'r person a drosglwyddodd y rhodd i chi, neu'r sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd, rhaid i chi anfon y rhodd i ni. Byddwn yn ei thalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

### Benthyciadau na chaniateir

Os nad yw benthyciwr yn un a ganiateir, neu ei fod yn dod yn un na chaniateir, mae'r trafodion yn ddi-rym. Rhaid i chi dalu'n ôl unrhyw beth sy'n ddyledus gennych i'r benthyciwr, ynghyd ag unrhyw log sy'n ddyledus gennych, ar unwaith. Rhaid i chi hefyd gofnodi'r manylion hyn:

- enw a chyfeiriad y benthyciwr
- os yw'r benthyciwr yn gwmni, eu rhif cwmni cofrestredig
- gwerth y benthyciad
- y dyddiad y cymerwyd y benthyciad
- y camau a gymerwyd gennych i ad-dalu'r benthyciad

# Adrodd am roddion a benthyciadau

**Rhoddion, ymweliadau tramor a benthyciadau a ganiateir**

Rhaid i chi adrodd am roddion, ymweliadau tramor a benthyciadau i'r Cofrestrydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr ydych yn derbyn y rhodd, dychwelyd o'r ymweliad neu gymryd y benthyciad.

Mae'r trothwy lle mae'n rhaid i chi adrodd am roddion a benthyciadau yr ydych yn eu derbyn yn amrywio, yn dibynnu o dan ba gategori o'r Cod Ymddygiad yr ydych yn eu hadrodd.

Mae'r gofynion adrodd yn cynnwys rhoddion a benthyciadau sy'n cael eu derbyn o'r un ffynhonnell yn yr un flwyddyn galendr ac yn cronni i fwy na'r trothwyon penodol ar gyfer pob categori.

Dylai aelodau ddarllen canllawiau'r Tŷ i'r Rheolau sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad am fwy o wybodaeth am y gofynion adrodd penodol ar gyfer pob categori o fudd.

Rhaid i chi hefyd adrodd i'r Cofrestrydd am fanylion rhai rhoddion a dderbynnir gan eich sefydliad plaid yn lleol neu'n ganolog mewn cysylltiad â'ch gweithgareddau gwleidyddol fel AS.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cynhyrchu ffurflen y gallwch ei defnyddio ar gyfer adrodd am fanylion rhoddion, ymweliadau tramor a benthyciadau. Dylech fod â'r cofnodion a gadwyd gennych wrth wirio p'un a yw'r rhain yn cael eu caniatáu wrth law wrth gwblhau'r ffurflen.

Mae'r ffurflen a mwy o wybodaeth am adrodd am roddion a benthyciadau a dderbynnir gennych ar gael o swyddfa'r Cofrestrydd, y gellwch ei ffonio ar 0207 219 0311 neu e-bostiwch commonsregistrar@parliament.uk

Pwysig

Ar gyfer rhoddion o'r un ffynhonnell sy'n cronni i fwy na'r trothwy adrodd perthnasol, rhaid i chi adrodd am gyfanswm gwerth y rhoddion a dderbyniwch o fewn 28 diwrnod i dderbyn y rhodd a achosodd i'r cyfanswm fynd dros y trothwy adrodd.

**Rhoddion a benthyciadau na chaniateir**
Yn unol â PPERA, mae'n rhaid i chi adrodd am bob rhodd a benthyciad na chaniateir o fwy na **£500** i'r Comisiwn Etholiadol o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd y rhodd neu derfynu'r benthyciad.

Rydym wedi cynhyrchu ffurflenni y gallwch eu defnyddio ar gyfer adrodd wrthym am fanylion rhoddion a benthyciadau na chaniateir ar ein gwefan.

# Sut allwn ni helpu

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y dogfennau canllawiau a awgrymwyd yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o ganllawiau ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Cysylltwch â ni :

- Cymru: 0333 103 1929
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni ar pef@electoralcommission.org.uk